

CYNGOR CYMUNED LLANNON COMMUNITY COUNCIL



**Cofnodion Cyfarfod Llawn Cyngor Cymuned Llannon
a gynhaliwyd ar
Ddydd Mercher Mai 25^{ain} 2022, am 6.30yh
Cyfarfod o bell via Zoom**

Dechreuodd y cyfarfod am 6:31yh

Cofnod rhif 24 – Aelodau'n Bresennol

Y Cyngorydd L. Williams (LW)
Y Cyngorydd R. Lloyd-Davies (RD)
Y Cyngorydd R. Jones (RJ)
Y Cyngorydd D. Jones (DJ)
Y Cyngorydd L. Davies (LD)
Y Cyngorydd S. Stewart (SS)
Y Cyngorydd M. Jones (MJ) (ymuno'n hwyr)

**Y Cadeirydd, y Cyngorydd Lesley Williams,
oedd yn llywyddu ar y cyfarfod**

Cofnod rhif 25 – Ymddiheuriadau am absenoldeb.

Y Cyngorydd J. Owen: Digwyddiad teuluol
Y Cyngorydd P. Owen: Digwyddiad teuluol
Y Cyngorydd C. Bowkett: Ymrwymadau gwaith
Y Cyngorydd E. Dole: Ymrwymadau gwaith
Y Cyngorydd C. Davies: Ymrwymadau gwaith

Cofnod rhif 26 – Datganiadau o Fuddiant

Y Cyngorydd Dot Jones: Cyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraethwyr a benodwyd gan yr AALI yn Ffederasiwn y Tymbl a Llechyfedach, a mam y Cyngorydd Rhys Jones.

Y Cyngorydd Llinos Davies: Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn briod â'r Cyngorydd Christopher Davies.

Y Cyngorydd R. Jones: Mab y Cyngorydd Dot. Jones.

Y Cyngorydd S. Stewart: Rhiant Llywodraethwr yn Ysgol Penygroes.

Cofnod rhif 27- Derbyn adroddiad y Clerc.

Diwrnod Hwyl y Pasg

Nododd y Clerc bod y diwrnod Hwyl y Pasg a gynhaliwyd ym Mharc Y Mynydd Mawr wedi bod yn llwyddiannus dros ben, gyda dros 400 o bobl yn mynychu. Dosbarthwyd 210 Ŵy Pasg fel gwobrau am y ddwy Helfa Wyau'r Pasg. Roedd y digwyddiad am ddim ar gyfer y gymuned. Derbyniwyd cyllid grant o £500 oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â £750 oddiwrth Wrenvale Landscapes and Nurseries. Dywedodd y Clerc y bydd yn parhau i drefnu digwyddiadau cymunedol, a cheisio dod o hyd i gyllid i'w cefnogi.

Dathlu Canmlwyddiant y Lleng Brydeinig Frenhinol

Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad roedd y Lleng Brydeinig Frenhinol wedi cysylltu â'r Clerc i'w hysbysu bod cangen Cross Hands a Rhydaman yn datlu ei ganmlwyddiant eleni. Roeddent wedi holi os hoffai'r Cyngor Cymuned eu helpu gyda'r dathliad. Dywedodd y Clerc ei bod wedi trefnu seremoni i'w chynnal ar ddydd Sadwrn Mai 28^{ain} 2022 ger Cofeb Cross Hands, lle mae staff y tiroedd wedi plannu gwelyau blodau a gosod placiau coffa. I ddilyn, bydd lluniaeth yn Nghlwb y Gweithwyr, Cross Hands, a bydd adloniant hefyd. Roedd y Cyngorydd D. Jones wedi cadarnhau y bydd hi'n bresennol. Os oedd unrhyw un arall am fynychu roedd y Clerc wedi gofyn eu bod yn rhoi gwybod iddi hi.

Gwyliau'r Hanner-Tymor a'r Jiwbilî

Dywedodd y Clerc bod Canolfan Deulu y Tymbl wedi trefnu Diwrnod Hwyl i'w gynnal ar ddydd Mawrth (Mai 30^{ain}) ym Mharc Y Mynydd Mawr. Bydd Roger ac Walford yn cludo peth offer yno ar eu rhan, ac yn helpu'r Ganolfan i osod y digwyddiad, gan eu bod wedi cefnogi digwyddiad y Cyngor adeg y Pasg.

Roedd y Clerc wedi atgoffa'r aelodau am y Te Prynhawn a gynhelir ar ddydd Iau yr 2^{il}, gydag adloniant gan Peter Karrie. Dywedodd y Clerc ei bod wedi archebu tair coeden goffa a phlaciau a fydd yn cael eu plannu yng Ngardd Goffa Cross Hands, ger Cofeb y Tymbl ac ym Mharc Llannon.

Gwyliau'r Haf

Nododd y Clerc bod rhaglen wythnosol o weithgareddau wedi'u trefnu, gan gydweithio gyda Chanolfan Carwyn, Canolfan Deul y Tymbl, Actif a Menter; cynhelir rhain bob dydd Iau. Mae'r Ganolfan Deulu yn trefnu gweithgareddau bob dydd Llun, Mawrth a Mercher, felly bydd y Clerc yn trefnu clwb sinema yn Neuadd y Tymbl bob dydd Gwener.

Syrkas: Mae'r Clerc wedi bwcio syrcas, a bydd y syrcas yn perfformio mewn pabell fawr ym Mharc Cross Hands ar Awst 11^{eg}.

Parc Cross Hands

Roedd y Clerc wedi cynnal cyfarfod safle gyda'r tîm cyfreithiol yr wythnos ddiwethaf i drafod y llwybr ceffylau a'r coed. Bydd y Clerc yn hysbysu'r Cyngor pan fod ganddi wybodaeth bellach.

Dyweddodd y Clerc ei bod wedi cwrdd â'r clwb bowlio. Efallai bydd angen arnynt gymorth i gwblhau ceisiadau grant.

Mae Clwb Rygbi Cefneithin a Chlwb Pêl-droed Drefach wedi bod mewn cyswllt i ddweud bod ganddynt ddi-ddordeb mewn is-brydlesu'r caeau chwarae. Dywedodd y Clerc y bydd yn dod â'r mater gerbron y Cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dyweddodd y Clerc bod Biwro Cyngor Sir Caerfyrddin (CCCB) wedi bod yn gwneud ymholiadau ynghylch yr arian Adran 106 gwerth £45,000 sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y maes chwarae. Mae'r Clerc wedi dweud wrthynt droeon bod y cyfan wedi'i atal, ac y byddai'n gwbl annheg pe byddent yn ailgyfeirio'r arian i rywle arall, gan taw nid bai y Cyngor Cymuned yw'r ffaith ein bod yn y sefyllfa hon. Mae John Hancock yn ceisio gwthio pethau ymlaen ar ein rhan, ac mae'r Clerc yn bwriadu gofyn i'r tîm cyfreithiol i ysgrifennu llythyr o fwriad ar ran y Cyngor er mwyn cael gafael ar yr arian. Roedd y Cyngorydd D. Jones wedi awgrymu ei bod hi a'r Cyngorydd L. Davies yn ysgrifennu llythyr i gadarnhau bod yr arian wedi'i neilltuo ar gyfer Parc Cross Hands.

Nododd y Clerc bod grant cynnal a chadw, gwerth £35,000, ar gyfer Parc Cross Hands yn dal yn ddyledus, felly roedd wedi trafod gydag Emily Hughes i holi os oedd modd defnyddio'r arian i ddymchwel yr hen adeilad. Roedd Emily wedi cynghori fel a ganlyn; os oedd y Cyngor yn gallu dangos bod cynllun yn bodoli i amnewid yr ystafelloedd newid yna nid oedd hi'n gweld bod unrhyw rheswm i atal y Cyngor rhag defnyddo'r arian hwnnw i ddymchwel yr hen adeilad.

Dyweddodd y Clerc ei bod hi, yng nghwmni'r Cadeirydd, y Cyngorydd D. Jones, y Cyngorydd L. Davies a'r Cyngorydd M. Jones wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Carnifal Cross Hands. Mae llawer o sïon wedi bod yn honni y bydd heolydd yn cael eu cau, a hynny heb ofyn am, neu dderbyn caniatâd. Gan fod y carnifal yn cael ei gynnal ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned, roedd y Clerc wedi mynychu'r cyfarfod gan ei bod yn poeni na fyddai'r trefniadau llywodraethu cywir yn eu lle. Roedd y Clerc wedi gofyn bod yr eitem agenda sy'n ymwneud â Digwyddiad Carnifal Cross Hands yn cael ei ddwyn ymlaen ar yr adeg hon.

Carnifal Cross Hands:

- a) **Trafod cais gan Dîm Gweithredu Cross Hands i letya Carnifal Cross Hands ar Gae Hamdden Cross Hands ar Orffennaf 9^{fed} 2022.**

Mae'r Clerc wedi derbyn copi o gyfansoddiad y Tîm Gweithredu ynghyd â chais am drwydded am hysbyseb digwyddiad dros-dro. Hyd yn hyn, nid yw'r Clerc wedi derbyn copi o'r tystysgrif yswiriant neu chwaith copi o'r asesiad risg.

SS- wedi holi ynghylch y sefyllfa cau'r heol, gan fod yr amser yn brin i weithredu'r fath newid arwyddocaol.

DJ- wedi dweud ei bod wedi cael nifer o sgysiau gyda'r Cyngor Sir o ran y dargyfeiriadau y bydd angen eu gweithredu ar y briffordd. Mae swyddogion y sir wedi dweud bod modd gwneud cais am gau'r heol ond, heb gefnogaeth yr heddlu, ni fyddai'r Cyngor Sir yn cefnogi'r fath gais. Mae'r heddlu wedi dweud wrth Dîm Gweithredu Cross Hands yn blwmp ac yn blaen y gallant gefnogi'r digwyddiad drwy gael presenoldeb yn y parc, ond ni allant gefnogi cau unrhyw heolydd. Mae'r wybodaeth yma wedi deillio o lefel hŷn. Dywedodd y Cyngorydd Jones ei bod wedi'i chopio i gadwyn o ebyst, a oedd wedi'i hanfon ymlaen at y Cyngorydd Kim Thomas.

SS- Yn y dyfodol, a fyddai'n ddoeth gosod amserlen, fel bod grwpiau yn gallu anfon eu gwybodaeth at y Cyngor mewn da bryd?.

CH- Mae hi'n bwriadu cynnig polisi a fydd yn mynd i'r afael â phethau felly, a bydd yn cyflwyno'r polisi i'r Cyngor yn hwyrach yn y flwyddyn. Y gobaith yw y bydd hyn yn atal y fath sefyllfa rhag digwydd yn y dyfodol.

Roedd y Cyngorydd D. Jones wedi cynnig bod y Carnifal yn derbyn caniatâd i fynd ymlaen a'i drefniadau, ar yr amod bod yr holl ddogfennau perthnasol yn eu lle.

CH- wedi awgrymu bod y Cyngor yn rhoi pythefnos iddynt, tan Fehefin 8^{fed} 2022, fel eu bod yn cael y cyfle i gyflwyno'r holl ddogfennaeth berthnasol.

Eiliwyd gan y Cyngorydd R. Lloyd-Davies

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- Bod Carnifal Cross Hands yn derbyn caniatâd i fynd ymlaen â'i drefniadau, ar yr amod bod yr holl ddogfennau perthnasol yn eu lle.

- b) **Trafod cais gan Dîm Gweithredu Cross Hands am gymorth ariannol ar gyfer yr un digwyddiad.**

Eglurodd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw ddatganiadau banc oddiwrth CHAT.

Roedd y Clerc wedi cynghori bod y Cyngor yn glynu at yr un dyddiad a bennwyd ym mhwynt A, a bod y Cyngor yn hapus i drosglwyddo'r cymorth ariannol wedi iddo dderbyn datganiadau banc boddhaol.

Roedd y Cynghorydd L. Davies wedi cynnig, ar dderbyn y datganiadau a'r cyfrifon banc, bod y swm o £500 yn cael ei ryddhau.

Eiliwyd gan y Cynghorydd S. Stewart

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd bod y Cyngor, ar dderbyn datganiadau banc boddhaol, yn hapus i ryddhau arian grant gwerth £500.

Gyda chydysyniad y Cadeirydd, dygwyd eitem 12 yr agenda ymlaen, i'w drafod ar yr adeg hon yn y cyfarfod.

12. Adolygu'r polisi llogi pebyll mawrion y Cyngor.

Eglurodd y Clerc bod y telerau ac amodau llogi mwy neu lai yr hyn y byddai unrhyw gwmni yn ei ddisgwyl. Mae'n cymryd gwaith dau ddyn am 4-5 awr i godi un pabell fawr, a 3-4 awr i'w dymchwel. Roedd y Clerc wedi awgrymu dau opsiwn – bod llogwyr sydd am godi a dymchwel y pebyll eu hunain yn talu ernes o £150 y babell, a bod llogwyr sydd am fanteisio ar wasanaeth y Cyngor i godi a dymchwel y pebyll ar eu rhan yn talu £250 am logi pabell, ynghyd ag ernes o £150.

Roedd y Cynghorydd R. Lloyd-Davies wedi cynnig bod y Cyngor yn derbyn y polisi a'r weithdrefn am logi pabell fawr.

Eiliwyd gan y Cynghorydd L. Davies

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y Polisi a'r Weithdrefn am logi pabell fawr.

c) Trafod cais gan Dîm Gweithredu Cross Hands i logi pebyll mawrion y Cyngor ar gyfer yr un digwyddiad.

Roedd y Cynghorydd R Jones wedi cynnig bod y Clerc yn cyflwyno'r polisi llogi i C.H.A.T.

Eiliwyd gan y Cynghorydd S. Stewart

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.

Penderfynwyd- anfon y polisi a'r weithdrefn at Dîm Gweithredu Cross Hands

Adroddiad y Clerc - parhad:

10 Tref – Arian Refeniw – Roedd y Clerc wedi dweud bod dyfynbris wedi'i lunio i'w ddatblygu, ac roedd hwn wedi'i gyflwyno i 3 pharti sydd â diddordeb. Derbyniwyd ymatebion tendr oddiwrth y tri, ac mae un ohonynt yn drawiadol iawn. Yr ydym yn aros am ddeilliad Cyfnod 2 y cais.

Nododd y Clerc bod yr heddlu wedi ymchwilio i'r fandaliaeth a achoswyd i Goeden Nadolig y Tymbl, a bod person wedi'i erlyn. Mae'r adran cymorth i ddiodesfwyr wedi bod mewn cyswllt, ac mae'r Cyngor wedi derbyn iawndal gwerth £200. Mae'r troseddwr wedi derbyn dedfryd gwasanaeth cymunedol.

Mae dwy fainc wedi'u gosod ym Mharc y Tymbl, a drydedd yn cael ei chwblhau yn fuan.

Mae ymgynghorydd y fynwent wedi ail-ymweld â ni, ac yr ydym wedi diweddarau'r holl rheolau a rheoliadau, a bydd y Clerc yn dod â'r rhain gerbron y Cyngor er mwyn eu hadolygu a'u dilysu. Bydd yr ymgynghorydd yn paratoi adroddiad i'r Cyngor ynghylch sut y bydd y fynwent yn gweithredu at y dyfodol. Mae Wendi wedi bod yn diweddarau'r hen gofnodion ond mae tipyn o waith dal i'w wneud.

Mae'r neuadd wedi bod yn brysur iawn ac yn derbyn llawer o logwyr sydd, erbyn hyn, yn cynnwys Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae atgyweirio'r to wedi costu £1200, ac yr ydym wedi derbyn dyfynbrisiau amrywiol am baentio gwedd allanol y neuadd. Mae'r dyfynbrisiau am sgaffaldau yn unig tua £2,000. Mae gwelliannau anferth wedi'u gwneud i'r bar drwy ei ymestyn. Derbyniwyd ebost siomedig oddiwrth gwmni pantomeim Owen Money i ddweud na fyddant yn ymddangos yn Neuadd y Tymbl yn y dyfodol, a'u bod yn siomedig ein bod wedi canslo'r digwyddiad adeg y Nadolig. Nid ni oedd wedi canslo'r disgwyddiad – yn hytrach, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad i newid y cyfyngiadau, ac nid oedd gennym yr hawl i gynnal digwyddiad o'r maint hwnnw yn y neuadd. Mae'r cwmni syrcas yr oedd y Clerc yn sôn amdano yn gynharach hefyd yn cynnig pantomeim teithiol. Eleni mae nhw'n cynnig Dick Whittington, a chynhelir y perfformiad yn y neuadd ar Ragfyr 23^{ain}, 2022. Bydd dau berfformiad yma. Mae'r Clerc hefyd wedi cysylltu â Martin Geraint a Dafydd Hywel, ac mae gan y ddau gwmnïau cynhyrchu sy'n perfformio pantomeimau Cymraeg. Bydd rhain yn fwy fforddiadwy.

Cynhelir hyfforddiant arolygu meysydd chwarae yn y neuadd ar Fehefin 8^{fed} a'r 9^{fed}. Nid oedd y gweithwyr yn gyfoes o ran yr hyfforddiant hwn, er gwaetha'r ffaith bod y cyn-Glerc wedi'u hysbysu eu bod. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r hyfforddiant diogelu ac o ran ein hyswiriant. Unwaith bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau bydd gan y Cyngor 5 arolygydd meysydd chwarae cymwysedig, gan gynnwys cynghorydd, oherwydd bod y Cynghorydd P. Owen hefyd wedi cytuno mynychu'r hyfforddiant.

Cyllid TFF: Arian yw hwn yr oedd y cyn-Glerc wedi gofyn am i Canvas i dalu'r ffioedd cynllunio ar gyfer y parc sglefyrddio. Roedd y Clerc wedi cael ar ddeall yr wythnos hon y byddwn yn derbyn ad-daliad o hanner ffioedd Canvas, sef swm ychydig yn llai na £15,000.

Cofnod rhif 28 -Trafod y cais am ganiatâd cynllunio canlynol:

- a) **PL/03913 – Newid defnydd i Ddosbarth B8 (Storio neu Ddosrannu), ynghyd â newidiadau allanol cysylltiedig - Uned 2, Heol Stanllyd, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RB.**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau oddiwrth yr aelodau, felly bydd y Clerc yn ymateb i'r Adran Gynllunio i'r perwyl hwn.

Cofnod rhif 29 – Adolygu'r trefniadau dirprwyo i bwyllgorau a staff.

Cynigiodd y Cyngorydd D. Jones ein bod yn derbyn y Pwerau Dirprwyo

Eiliwyd gan y Cyngorydd L. Davies

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y pwerau dirprwyo

Cofnod rhif 30 – Adolygu cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau:

- a) **Pwyllgor Cyllid**

Cynigiwyd gan y Cyngorydd R. Jones

Eiliwyd gan y Cyngorydd S. Stewart

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cyllid

- b) **Pwyllgor Personél**

Cynigiwyd gan y Cyngorydd L. Davies

Eiliwyd gan y Cyngorydd D. Jones

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Personél

c) **Pwyllgor Apeliadau**

*Cynigiwyd gan y Cynghorydd R. Lloyd-Davies
Eiliwyd gan y Cynghorydd L. Davies*

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Apeliadau

d) **Pwyllgor Asesu Risg**

*Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Jones
Eiliwyd gan y Cynghorydd M. Jones*

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Asesu Risg

e) **Pwyllgor Adolygu Polisi**

*Cynigiwyd gan y Cynghorydd S. Stewart
Eiliwyd gan y Cynghorydd L. Davies*

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Adolygu Polisi

f) **Pwyllgor y Neuadd**

*Cynigiwyd gan y Cynghorydd M. Jones
Eiliwyd gan y Cynghorydd R. Jones*

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd derbyn - derbyn y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer Pwyllgor y Neuadd

g) **Pwyllgor Amgylcheddol**

*Cynigiwyd gan y Cynghorydd L. Davies
Eiliwyd gan y Cynghorydd R. Jones*

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- derbyn y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Amgylcheddol

Cofnod rhif 31- Cadarnhau llofnodwyr cyfrifon banc y Cyngor.

Gohiriwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf

*Cynigiwyd gan y Cyngorydd M. Jones
Eiliwyd gan y Cyngorydd D. Jones*

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd bod y Cyngorydd R. Lloyd-Davies yn cael ei benodi'n ddi-lofnodwr

Cofnod rhif 32 – Trafod prynu/ prydlesu Kubota newydd.

Gohiriwyd i'r cyfarfod nesaf.

Cofnod rhif 33- Trafod dyfodol yr ystafelloedd newid ym Mharc y Mynydd Mawr, sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan Glwb Pêl-droed y Tymbl.

Nododd y Clerc bod yr ystafelloedd yn cael eu trosglwyddo yn ôl i'r Cyngor, gan nad yw'r clwb pêl-droed yn gallu ffrorddio eu cynnal a chadw. Mae'r clwb rygbi wedi mynegi diddordeb yn eu defnyddio, ac 'rydym wedi cynnal cyfarfod gydag Undeb Rygbi Cymru. Canlyniad y cyfarfod oedd y byddai derbyn unrhyw gymorth ariannol yn ddibynnol ar yr adeilad yn parhau i fod yn adeilad cymunedol. Gan efallai y bydd angen gofod ar y Ganolfan Deulu yn y man, a bod angen dybryd am fanc bwyd yn yr ardal, roedd y Clerc yn teimlo y byddai'r adeilad yn hwb canolog da i'r gymuned. Roedd wedi awgrymu bod cyfarfod yn cael ei drefnu fel bod modd trafod y cynigion hyn.

Cofnod rhif 34 – Trafod yr Wyl Sinema Awyr Agored sydd i'w gynnal ar Gae Hamdden Cross Hands, Awst 19^{eg} – 21^{ain} 2022.

Roedd y Clerc wedi nodi ei bod wedi gwneud camau tuag at drefnu'r penwythnos, gan ei fod yn cymryd mor hir i dderbyn trwyddedau ffilm ayyb. Mae'r sgrîn sydd ganddi mewn golwg yn gallu dangos ffilmiau yn ystod y dydd yn ogystal â'r nos, ac yn costu £10,000 a TAW. Hoffai'r Clerc farchnata pasiau penwythnos a fydd yn cael eu gwerthu am bris rhesymol iawn; bydd hyn yn helpu gyda'r costau gan fod rhaid cynnwys ffi trwyddedu o 40% gyda phob tocyn sy'n cael ei werthu, felly bydd pas penwythnos yn golygu gwell gwerth am arian i'r rhai sy'n mynychu. Bydd popeth yn gynwysiedig yn y pris, ag eithrio'r goleuo a'r toiledau. Dywedodd y Clerc ei bod yn gobeithio derbyn incwm oddiwrth ddeiliaid stondinau a'r rhai a fydd yn gwerthu bwyd.

Soniodd hefyd ei bod eisoes wedi derbyn peth arian nawdd.

SS- A fydd risg o golli arian os ydy'r tywydd yn wael yn ystod y penwythnos hwn?

CH- Na, fydd y cwmni yn trefnu dyddiad newydd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd R. Lloyd-Davies bod y Clerc yn cael parhau gyda'r cynlluniau ar gyfer yr Ŵyl Sinema Awyr Agored.

Eiliwyd gan y Cynghorydd R. Jones

Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid

Penderfynwyd- rhoi caniatâd i'r Clerc barhau gyda'r cynlluniau ar gyfer yr Ŵyl Sinema Awyr Agored.

Cofnod rhif 35- Trafod Materion Personél

Yn dilyn y broses o recriwtio Gweithiwr Tiroedd a Chynnal a Chadw'r Asedau, nododd y Clerc bod Sean Rees wedi'i gyflogi ar gytundeb parhaol 35 awr yr wythnos a bod David Flear wedi'i gyflogi dros-dro am dri mis, gan weithio 15 awr yr wythnos.

Darllenwyd i'r cyfarfod ebost a dderbyniwyd oddiwrth y Cynghorydd N Holman, a oedd yn cyfeirio at y Clerc a'r Cynghorydd D Jones. Bydd y Cynghorydd Julie Owen yn archwilio'r mater hwn.

Trafodwyd mater personél arall, ac fe'i gohiriwyd hyd at gyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 20.49yh

Llofnod

Dyddiad

Cadeirydd